

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref 2017 11 21 Lyth Gweinidog Add Llyw / CYSAG
Ein cyf/Our ref KW/05124/17

Garem Jackson Pennaeth Addysg
Cyngor Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

garemjackson@gwynedd.gov.uk

6 Rhagfyr 2017

Annwyl Mr Jackson

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd sy'n nodi pryderon ynglŷn â'r diffyg adnoddau Cymraeg ar gyfer y cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd.

Caiff gwrslyfrau i gefnogi cymwysterau CBAC eu cyhoeddi yn Saesneg gan gyhoeddwy yn Lloegr fel menter masnachol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru na CBAC unrhyw ddylanwad dros ddyddiad cyhoeddi'r gwrslyfrau hyn. Trefnir fersiynau Cymraeg o'r gwrslyfrau gan CBAC gyda nawdd Llywodraeth Cymru, ond mae argaeledd y fersiynau Cymraeg yn ddibynnol ar amserlenni cynhyrchu'r fersiynau Saesneg.

Yn yr achos hwn ni chafodd y fanyleb ar gyfer y pwnc ei hachredu'n derfynol tan canol Hydref 2016. Yn dilyn hyn cafodd awduron Hodder bedwar mis i addasu cynnwys y gwrslyfr oedd wedi'i ddatblygu ganddynt ar gyfer Eduqas. Mae'n cymryd oddeutu wyth mis i'r cyhoeddwr gyhoeddi'r llyfr yn dilyn derbyn y testun gan yr awduron. Ni chyhoeddwyd y llyfr yn Saesneg ar gyfer cymhwyster CBAC felly tan Awst 2017.

Er mwyn gwella ar amserlenni rydyn ni wedi gofyn i CBAC ailedrych ar wahanol gamau yn y broses gyhoeddi. Mae CBAC wedi cynyddu ei gapasiti golygyddol ynghyd â datblygu ei broses cof cyfieithu a chysodi peirianyddol er mwyn cyflymu'r broses a lleihau'r bwlch rhwng cyhoeddi gwrslyfrau yn y ddwy iaith. Gan amlaf mae'n rhaid aros am y proflenni terfynol yn Saesneg cyn y gellir dechrau ar y gwaith o gyfieithu neu addasu i'r Gymraeg er mwyn sicrhau nad oes newidiadau pellach. Yn yr achos hwn dechreuwyd ar y gwaith yn gynt gyda'r drydedd broflen Saesneg. O wneud hyn bu'n rhaid ymgorffori nifer o newidiadau i'r fersiwn Gymraeg yn sgil derbyn newidiadau pellach i'r pedwerydd fersiwn o'r Saesneg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae CBAC yn gobeithio cyhoeddi fersiwn drafft o'r llyfr Cymraeg ar ei wefan ddiogel yn gynnar ym mis Ionawr. Er mwyn sicrhau bod cefnogaeth i athrawon a disgyblion ar gael, mae CBAC wedi darparu adnoddau digidol ar gyfer y pwnc am ddim ar eu gwefan.

<http://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceByArgs.aspx?subId=26&lvlId=2>

Rwy'n cytuno nad yw'r sefyllfa yma'n dderbyniol. Mae'r oedi rhwng cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o werslyfrau i gefnogi cymwysterau yng Nghymru yn fater o bryder i mi ac rwy am sicrhau gwell darpariaeth. Byddaf yn cwrdd â Gareth Pierce, Prif Weithredwr CBAC yn nes ymlaen yn y mis i drafod y mater hwn ymhellach.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education